# Gweithgaredd 3: Cardiau Gwrthdaro

KS3

### Cyswllt cwricwlwm Cymru:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles

### Cyswllt cwricwlwm Lloegr:

Saesneg: Gramadeg a geirfa, llafar Saesneg.
Datblygiad personol: gwerthfawrogi safbwynt eraill.

**Amser:** 1-2 awr

### Adnoddau i'w lawrlwytho:

Cardiau cymeriad

### Adnoddau eraill fydd eu hangen:

dau linyn gwahanol liw

### Maint y grŵp:

Dosbarth cyfan

## Cynllun y gweithgaredd:

- Argraffwch a thorrwch y cardiau cymeriad
- Dosbarthwch y cardiau- mae un yr un yn gweithio'n dda, ond mae mewn parau neu grwpiau yn iawn
- Rhowch ddigon o amser i'r dysgwyr i ddarllen eu cardiau. Mynd i'w cymeriad a meddwl am y cwestiynau yma:
    - Pam fod Gwarchodfa Natur Cwm Idwal yn arbennig i 'chi' (eich cymeriad)?
    - Pwy fyddech chi'n dadlau ag o am y gweithgareddau yn y warchodfa Natur?
    - Pwy fyddech 'chi'n medru cydweithio ag o i warchod y warchodfa?
- Gofynnwch i'r dysgwyr i wneud grŵp gyda phobl eraill sydd â'r un cymeriad a nhw i rannu eu syniadau.
- Cynhaliwch drafodaeth gyda'r dosbarth i weld beth mae'r dysgwyr yn ei feddwl.
- Rhowch ddau ddarn o linyn i bob grŵp/ dysgwr; un lliw i gytuno ac un i anghytuno. Maent yn gafael yn un pen y llinyn a rhoi'r pen arall i'r cymeriadau maent yn gweithio/ gwrthdaro â nhw.
- Ar ddiwedd y gweithgaredd byddwch ynghanol clymau o linynnau lliwgar, sydd yn iawn. Gofynnwch i'r dysgwyr geisio dadansoddi beth mae'r we o linyn yn ei olygu am y perthnasau a gwrthdaro yn y Parc Cenedlaethol; ceisiwch eu harwain tuag at drafodaeth am y cymhlethdodau a'r perthnasedd mewnol o'r perthnasau.

### Syniadau gweithgaredd dosbarth y gallwch eu gwneud cyn neu ar ôl eich ymweliad:

- Trafodaeth ar ba mor dda yw gwrando.
- Trefnu cardiau Dynodiadau Gwarchodfeydd (gweithgaredd i'w lawrlwytho ar wahân)
- Tasg ymchwilio am barciau cenedlaethol ym Mhrydain.

# Taflen waith gweithgaredd 3: Cardiau Gwrthdaro

## Cwestiynau

Dosbarthwch y cardiau i'r grŵp gan adael amser i'r dysgwyr eu darllen cyn cychwyn trafodaeth.

- Pwy ydych chi a beth yw eich diddordeb a'ch cyswllt i'r dirwedd, gallai ymatebion amrywio o ddarllen y cerdyn i wir fod yn y cymeriad ac adeiladu stori. Gall hyn ei fesur gyda'r grŵp.
- Oes yna grwpiau posib y gwnewch anghytuno â nhw?
- Oes yna grwpiau posib y gwnewch rannu diddordebau â nhw?

## Cerddwr

***Rwyf yn gerddwr.***

Rwyf wrth fy modd yn crwydro'r ardal a threulio amser mewn natur. Mae'n le rwyf yn dod i ymlacio gyda fy nheulu, gadael i'r ci gael ymarfer corff a chael awyr iach.

Mae'r llwybr yn hygyrch ac yn glir ac mae nifer o ardaloedd eraill i'w harchwilio o amgylch y llyn.

## Botanegydd

***Rwyf yn fotanegydd.***

Rwyf yn angerddol am bob math o blanhigion ond yn gweld Cwm Idwal yn arbennig o ddiddorol gan fod planhigion Alpaidd prin, mwsoglau diddorol ac enghreifftiau o rostiroedd.

Mae'r ardal yma yn warchodedig ac ni ddylai pobl gael sathru ar draws y lle.

## Dringwr

***Rwyf yn ddringwr.***

Yn fy amser sbâr dwi'n ceisio mynd allan i fannau dringo anhygoel ac mae Cwm Idwal yn ardal enwog i ddringo.

Mae'r ardal yn darparu trywyddion dringo gwych ar gyfer pob math o dywydd o'r haf i ddringo rhew. Dwi'n cael gweld y dirwedd o bersbectif hollol wahanol, mae'r creigiau yma'n anhygoel i'w dringo! Weithiau mae'r planhigion yn y ffordd.

## Ffermwr lleol

***Rwyf yn ffermwr lleol.***

Mae fy nheulu wedi edrych ar ôl y tir yma dros genedlaethau ac rwyf wedi cael fy magu i wybod sut mae gofalu am y planhigion ac anifeiliaid ar y bryniau.

Mi wnâi warchod fy anifeiliaid costied a chostio, dyma fy mywoliaeth ac rwy'n gobeithio fod pobl yn gwarchod a charu'r dirwedd cymaint â fi.

## Warden Parc Cenedlaethol

***Rwyf yn warden Parc Cenedlaethol.***

Mae'n rhan o fy ngwaith i rannu'r dirwedd hardd a'r hanes a diwylliant Cymru a'r Parc Cenedlaethol.

Mae gan yr ardal hon amryw o ddynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol i'w diogelu a fy ngwaith i yw sicrhau fod pobl yn cerdded a chrwydro heb ddifrodi'r dirwedd.